

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 30 July 2015

STATWS: GWYBODAETH

CATEGORI: POLISI

Teitl: Cyfarwyddydau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Iechyd Trawsffiniol) (Telefeddygaeth) (Cymru) 2015 / The National Health Service (Cross-Border Healthcare) (Telemedicine) (Wales) Directions 2015

Dyddiad dod i ben / Adolygu Amherthnasol

I'w weithredu gan:

Yr holl Fyrddau Iechyd Lleol a WAST – er gwybodaeth yn unig

Angen gweithredu erbyn: Amherthnasol

Anfonir gan: Peter Jones

Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:

Mike Thomas, y Tîm Iechyd a Gofal Digidol, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru

Dogfen(nau) amgaeedig: Dim

Cyfarwyddydau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Iechyd Trawsffiniol) (Telefeddygaeth) (Cymru) 2015

Annwyl Gydweithiwr,

Diben y Cylchlythyr Iechyd hwn yw eich hysbysu o Gyfarwyddydau Telefeddygaeth 2015 Rhif 17 a fabwysiadwyd ar 14 Gorffennaf 2015.

Gwybodaeth Gefndirol

Gofal Iechyd Trawsffiniol

Mabwysiadwyd Cyfarwyddyd yr UE 2011/24/CE ar hawliau cleifion o ran gofal iechyd trawsffiniol ym mis Ebrill 2011 ar ôl bron tair blynedd o drafodaethau ar lefel Ewropeaidd. Mae'r Cyfarwyddyd yn codeiddio cyfraith achosion ar symudedd cleifion yn Ewrop. 25 Hydref 2013 oedd y dyddiad cau ar gyfer trosi i (gweithredu) deddfwriaeth genedlaethol ar gyfer holl Aelod-wladwriaethau'r UE.

O dan y Cyfarwyddyd, mae gan gleifion yr hawl i ofyn am ad-daliad ar ôl iddynt dalu am ofal iechyd gan ddarparwyr y wladwriaeth neu ddarparwyr preifat mewn rhannau eraill o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd os yw'r gofal hwnnw yr un peth neu'n cyfateb i'r gwasanaeth fyddai wedi bod ar gael iddynt mewn amgylchiadau tebyg o fewn eu hardal Bwrdd Iechyd Lleol.

Ar ran Cymru, yr Alban, Gibraltair a Lloegr, ar 24 Hydref 2013, cyflwynodd yr Adran Iechyd hysbysiad rhannol i'r Comisiwn Ewropeaidd ar weithredu'r Cyfarwyddyd Trawsffiniol. Daeth y ddeddfwriaeth yn weithredol yng Ngogledd Iwerddon ar 27 Rhagfyr 2013.

Rhodddwyd y ddau fesur sydd ar ôl, sy'n berthnasol i'r DU gyfan, ar waith ar wahân:

- Gorchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i holl ddarparwyr gofal iechyd gael yswiriant indemnio. Daeth hyn i rym ar 17 Gorffennaf 2014. Bu oedi cyn ei weithredu o ganlyniad i drafodaethau â Bydwagedd Annibynnol y DU.
- Gwaith i gyflwyno gofynion i gydnabod presgripsiynau o draws y ffin – rhodddwyd hyn ar waith ar 31 Mawrth 2014.

Cefndir i'r Cyfarwyddydau Telefeddygaeth

Derbyniodd y DU Lythyr Barn Rhesymegol Erthygl 258 gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 10 Gorffennaf 2014. Roedd yr esboniad yn y llythyr yn nodi bod y methiant i roi gwybod am fesurau ar gyfer trosi i gyfraith genedlaethol wedi ysgogi'r Llythyr Barn Rhesymegol. Felly, roedd y Comisiwn am ddilysu ein bod wedi gweithredu'r holl fesurau oedd yn angenrheidiol i drosi'r Cyfarwyddyd.

Codwyd 17 o bwyntiau ar wahân yn y llythyr ei hunan lle'r oedd y Comisiwn yn dweud bod methiant wedi bod o ran hysbysu. Roedd un pwynt, a oedd yn berthnasol i'r DU gyfan, yn ymwneud â throsi'r egwyddor dros sefydlu lle yr ystyrir y darperir gweithred o delefeddygaeth mewn cyd-destun trawsffiniol.

Er gwaethaf y ffaith bod y DU yn bodloni gofynion y Cyfarwyddyd o safbwynt sefydlu ym mha un o wledydd Ardal Economaidd Ewropeaidd yr ystyrir fod gweithred o delefeddygaeth wedi'i darparu, daeth y Comisiwn i'r casgliad na chawsant eu hysbysu o hynny gennym ni. Felly, yn ymateb y DU i'r Llythyr Barn Rhesymegol, fe wnaeth Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon fynd ati i wneud Cyfarwyddydau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau cyhoeddus perthnasol gymhwyso'r egwyddor dros sefydlu lle bydd gweithred o delefeddygaeth yn digwydd.

Cyhoeddir y Cyfarwyddydau ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn gwneud eu Cyfarwyddydau eu hunain. Mae Gibraltar eisoes wedi gweithredu'r gofyniad hwn.

Mae canllawiau ar ofal iechyd trawsffiniol a symudedd cleifion hefyd i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru:

<http://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/guidance/?skip=1&lang=cy>

Rydym yn gofyn ichi ymgyswrtio â'r Cyfarwyddydau Telefeddygaeth newydd a'r ddogfen ganllaw ategol yn y dolenni uchod.

Os oes gan gydwethwyr unrhyw ymholiadau am y cylchlythyr hwn, dylent gysylltu â Mike Thomas, Pennaeth Datblygiad Digidol yn:

Iechyd a Gofal Digidol

4ydd Llawr

Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ebost: DHSS-DigitalHealthandCareCentralMailbox@Wales.GSI.Gov.UK

Yn gywir,



Peter Jones

Dirprwy Gyfarwyddwr, Iechyd a Gofal Digidol

Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol